Afasic GeirfA

Ynganiad

Beth yw ynganiad?

Mae ynganiad yn cyfeirio at symudiadau'r ynganwyr – tafod, taflod feddal, genau, dannedd, gwefusau. Bydd problemau gydag un o'r rhain yn arwain at anhwylder ynganiad a fydd yn effeithio ar ba mor ddealladwy ydych i raddau amrywiol.

Gall y problemau fod yn:

- strwythurol – er enghraifft, gwefus neu daflod hollt
- orthodontig – er enghraifft, dannedd uchaf bargod, micrognathia (gên isaf fach iawn), taflod feddal fyr
- niwrolegol – er enghraifft, dysarthia, lle mae ystod y symudiad yn y tafod a'r gwefusau'n gyfyngedig. Gall hyn fod yn benodol i'r ynganwyr neu'n gysylltiedig â chyflwr mwy cyffredinol fel parlys cerebrol neu strôc.

Gall anawsterau godi hefyd o anafiadau i'r pen neu anafiadau i'r wyneb neu dyspracsia lle na ellir rheoli symudiadau (gweler Taflenni Geirfa Afasic ar **dysarthria** a **dyspracsia**).

Mae therapi'n canolbwyntio ar wella ystod, gradd a chywirdeb symudiadau ond efallai y bydd angen dulliau cyfathrebu amgen neu gynyddol ar gyfer problemau difrifol. Efallai y bydd triniaeth orthodontig neu driniaeth gywirol hefyd yn angenrheidiol.

Gydag unrhyw broblem ynganu mae'n bwysig bod therapydd lleferydd ac iaith yn cynnal asesiad cynhwysfawr a all hefyd gyfeirio'r unigolyn at lawfeddyg ENT neu orthodontydd a hefyd argymell rhaglen gyfathrebu amgen neu gynyddol briodol.

Cyfeiriadau

Grunwell, P (golygydd) (1990), *Developmental Speech Disorders*, Whurr

Taflenni Geirfa perthnasol eraill

- Cyfathrebu amgen/cynyddol (9)
- Dysarthria (21)
- Dyspracsia (18)

Ysgrifennwyd gan Pat Mobley, therapydd lleferydd ac iaith, gyda diolch i Elizabeth Auger, athrawes iaith arbenigol.